*These notes refer to the Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (c.1)*

# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 6 – Lesoedd*

### Rhan 2 - Hyd les a thrin lesoedd sy'n gorgyffwrdd

### Lesoedd sy'n parhau ar ôl cyfnod penodol: rhoi les newydd

235. Mae paragraff 4 yn gymwys pan dybir bod les (y "les wreiddiol") wedi parhau am flwyddyn arall (neu flwyddyn ddilynol atodol) ar ôl y dyddiad terfynu contractiol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, bod les newydd wedi ei rhoi i'r tenant ar gyfer yr un eiddo (neu'r un eiddo i raddau helaeth), a bod y les newydd yn dechrau yn ystod y cyfnod hwnnw (ac nad yw wedi ei hôl-ddyddio).

236. O dan yr amgylchiadau hyn nid yw'r rheolau ym mharagraff 3 yn gymwys i'r cyfnod ychwanegol terfynol. Yn lle hynny, caiff cyfnod y les newydd ei drin fel pe bai'n dechrau y diwrnod ar ôl dyddiad terfynu contractiol y les wreiddiol (neu ar achlysur diweddaraf y dyddiad hwnnw, os cafwyd estyniad am fwy na blwyddyn).

237. Mae unrhyw rent a oedd yn daladwy am y cyfnod hwn o dan y les wreiddiol i'w drin fel pe bai'n rhent sy'n daladwy o dan y les newydd.